# GWEITHDREFN CAMYMDDYGIAD ACADEMAIDD (MYFYRWYR YMCHWIL)

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 4.0 |
| **Dyddiad A Gymeradwywyd Gan Y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 19.06.2019 (Y Senedd)<br>Fersiwn gyfredol: 23.05.2024 (Mân newidiadau) (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2024 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi Gonestrwydd Academaidd |

# CYNNWYS

1. Cyflwyniad ........ 1
2. Canfod ac Adrodd am Bryderon ........ 1
    Pryderon a fynegwyd yn ystod eich astudiaethau, cyn y broses arholi ........ 1
    Pryderon a fynegwyd yn ystod y broses arholi, heblaw'r arholiad llafar ........ 2
    Mynegi pryder yn ystod yr arholiad llafar ........ 2
    Pryderon a fynegwyd ar ôl dyfarnu eich gradd ........ 2
    Adrodd am bryderon ........ 2
3. Cam 1: adolygiad rhagarweiniol ........ 3
    Pryderon a fynegwyd yn ystod eich astudiaethau, cyn y broses arholi ........ 3
    Pryderon a fynegwyd yn ystod unrhyw ran o'r broses arholi ........ 4
    Pryderon a fynegwyd ar ôl dyfarnu eich gradd ........ 4
4. Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol ........ 4
5. Cam 3: Panel Uniondeb Academaidd ........ 6
6. Cais am adolygiad ........ 9
7. Gwrthod honiadau ........ 9

Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch. ........ 10

# GWEITHDREFN CAMYMDDYGIAD ACADEMAIDD (MYFYRWYR YMCHWIL)

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r weithdrefn hon yn gymwys i fyfyrwyr sy’n gwneud graddau ymchwil, gan gynnwys elfennau ymchwil doethuriaethau proffesiynol, drwy gydol eu hastudiaethau ac i raddedigion gyda gradd ymchwil a ddyfarnwyd gan y Brifysgol.

1.2 Mae diffiniadau o gamymddwyn academaidd a chamymddwyn academaidd mewn ymchwil wedi'u cynnwys yn y Polisi Gonestrwydd Academaidd.

1.3 Os byddwch yn peidio â bod yn fyfyriwr yn ystod ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn academaidd, bydd y weithdrefn yn parhau hyd at ei therfyn.

## 2. Canfod ac Adrodd am Bryderon

2.1 Gall pryderon ynghylch camymddygiad academaidd ddod i’r amlwg yn ystod unrhyw gam o’ch astudiaethau neu ar ôl dyfarnu eich gradd. Bydd y camau a fydd yn dilyn yn dibynnu ar natur y pryderon ac ar yr adeg y cawsant eu mynegi, fel y nodir isod.

2.2 Gall y sawl a fydd yn mynegi’r pryderon fod yn aelod o’r tîm goruchwylio, yn adolygydd neu arholwr, neu unigolyn arall sy’n fewnol neu’n allanol i’r Brifysgol.

2.3 Os bydd pryderon yn cael eu mynegi gan aelod o’r tîm goruchwylio fel rhan o adolygiad rheolaidd o’ch gwaith, bydd eich goruchwylwyr yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i ddifrifoldeb y mater. Byddant yn penderfynu a yw’n ganlyniad diffygion yn eich hyfforddiant y mae modd rhoi sylw iddynt drwy ddatblygu eich sgiliau, ynteu a ddylid rhannu’r pryderon â’r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig. Os bydd eich goruchwylwyr yn cytuno nad oes angen mynd â’r pryderon ymhellach ar yr adeg hon, bydd cofnod o ofynion hyfforddi ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y nodiadau goruchwylio a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn eich Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi, ond ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

### Pryderon a fynegwyd yn ystod eich astudiaethau, cyn y broses arholi

2.4 Os bydd pryderon yn cael eu mynegi am y gwaith rydych yn ei wneud neu’n ei gyflwyno i unrhyw ddiben yn ystod eich astudiaethau, cyn i chi gyflwyno eich traethawd hir i gael ei arholi (neu ailarholi yn achos ailgyflwyno), gofynnir i’r sawl sy’n mynegi’r pryderon hynny i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig sy’n nodi’r pryderon ynghyd â thystiolaeth briodol i’ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig (neu eu henwebai).

2.5 Os bydd pryderon yn cael eu mynegi yn ystod Adolygiad Blynyddol, gofynnir i Gadeirydd eich Panel Adolygu gynhyrchu adroddiad ar ran y Panel.

**Pryderon a fynegwyd yn ystod y broses arholi, heblaw'r arholiad llafar**

2.6 Wrth adolygu'r traethawd hir a gyflwynwyd neu a ailgyflwynwyd gennych ar gyfer ei arholi, gan gynnwys cywiriadau, os bydd gan Gynullydd y Bwrdd Arholi neu'r arholwr bryderon ynglŷn ag uniondeb academaidd, gofynnir iddynt adrodd yn ysgrifenedig ar y pryderon i'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig/enwebai, gan gynnwys yr holl dystiolaeth sydd ar gael.

2.7 Os bydd y pryderon yn ymwneud yn unig â chyflwyno canlyniadau mewn modd diofal neu wael neu dechnegau cyfeirio, mae gan arholwyr y disgresiwn i ganiatáu i chi gywiro'r materion hyn drwy newidiadau i'r traethawd hir, os yw hyn yn ganlyniad sydd ar gael yn yr arholiad. Bydd hyn yn cael ei nodi yng nghanlyniad yr arholiad a gwaith papur yr adroddiad ond ni fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

2.8 Os bydd Cynullydd y Bwrdd Arholi neu'r arholwyr yn penderfynu mynegi pryderon, byddwch yn cael eich hysbysu gan y Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig neu eu henwebai fod y broses arholi'n cael ei hatal nes bydd y pryderon wedi'u hystyried.

**Mynegi pryder yn ystod yr arholiad llafar**

2.9 Os bydd gan aelod o'r Bwrdd Arholi bryderon ynglŷn ag uniondeb academaidd yn ystod eich arholiad llafar, bydd y Cadeirydd yn dod â'r arholiad llafar i ben a bydd dim penderfyniad yn cael ei gofnodi.

2.10 Byddwch yn cael eich hysbysu gan y Cadeirydd bod yr arholiad yn cael ei atal nes bydd ymchwiliad wedi'i gynnal i bryderon ynghylch uniondeb academaidd.

2.11 Bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi'n cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig/enwebai.

**Pryderon a fynegwyd ar ôl dyfarnu eich gradd**

2.12 Os bydd pryderon yn cael eu mynegi ar ôl i'ch gradd gael ei dyfarnu, bydd y sawl sy'n gwneud honiadau o gamymddygiad honedig yn gorfod cyflwyno datganiad ysgrifenedig gyda thystiolaeth, i'w gyflwyno i Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd.

**Adrodd am bryderon**

2.13 Mae'n ofynnol i'ch Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu ei enwebai adrodd am bob honiad o gamymddwyn academaidd mewn ymchwil i Lywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau Ymchwil Ôl-raddedig) er mwyn i'r Brifysgol fod yn hyderus ei fod yn cydymffurfio â disgwyliadau'r Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil a chyllidwyr, lle bo'n briodol. Os yw'n ofynnol gan eich ariannwr i wneud hynny, bydd yr honiadau a chanlyniad yr ymchwiliad yn cael eu hadrodd iddyn nhw.

## 3. Cam 1: adolygiad rhagarweiniol

3.1 Bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, fel fydd yn gymwys, yn cychwyn adolygiad rhagarweiniol i'r pryderon a dynnwyd i'w sylw. Byddant yn cynnal yr adolygiad rhagarweiniol neu'n enwebu aelod arall o staff i wneud hynny ar eu rhan. Dyma fydd yn digwydd bob amser os ydynt hefyd yn oruchwylydd i chi neu'n tynnu sylw at y pryderon.

3.2 Gellir gofyn i Gydlynydd Camymddygiad Academaidd eich Ysgol, sy'n ymchwilio i bryderon sy'n gysylltiedig â myfyrwyr a addysgir, i gynghori ar gynnal yr adolygiad rhagarweiniol. Gall Turnitin neu feddalwedd tebyg sy'n canfod llên-ladrad gael ei ddefnyddio.

3.3 Bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu enwebai yn hysbysu Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) o ganlyniad adolygiad rhagarweiniol Cam 1, i'w adrodd ymlaen i Achosion Myfyrwyr.

### Pryderon a fynegwyd yn ystod eich astudiaethau, cyn y broses arholi

3.4 Ar sail y pryderon ysgrifenedig, ymateb y goruchwylydd, os cafwyd un, ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol, bydd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig yn penderfynu:

- .1 gwrthod y pryderon; neu
- .2 cymryd camau unioni dilynol; neu
- .3 atgyfeirio'r pryderon i Bennaeth yr Ysgol i gynnal ymchwiliad ffurfiol Cam 2.

3.5 Bydd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu eu henwebai yn gwrthod y pryderon os, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, ydynt yn ddi-sail neu os nad oes digon o dystiolaeth.

3.6 Bydd Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu eu henwebai yn cymryd camau unioni dilynol ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, os yw'r adolygiad wedi cadarnhau'r pryderon a godwyd ond, oherwydd lefel eu difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol, eraill, nid os angen eu hatgyfeirio at gam nesaf y Weithdrefn. Bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig/enwebai yn penderfynu ar un neu ragor o'r canlynol:

- .1 bydd angen i chi fynychu hyfforddiant pellach;
- .2 bydd angen i chi newid gwaith ysgrifenedig neu ddull ymchwilio;
- .3 gellid rhoi gweithdrefn Prifysgol arall ar waith.

3.7 Os yw'r pryderon yn dangos nad yw eich gwaith ymarferol neu ysgrifenedig yn cyrraedd y safon academaidd ddisgwyliedig, gall y Cyfarwyddwr Ymchwil

Ôl-raddedig neu eu henwebai ystyried gweithredu'r Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol (Myfyrwyr Ymchwil) fel cam unioni priodol.

**Pryderon a fynegwyd yn ystod unrhyw ran o'r broses arholi**

3.8 Ar sail y pryderon ysgrifenedig ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol, gall y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu eu henwebai benderfynu:

.1 gwrthod y pryderon; neu

.2 atgyfeirio'r pryderon i Bennaeth yr Ysgol i gynnal ymchwiliad ffurfiol Cam 2.

3.9 Os bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig/enwebai yn penderfynu bod, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, y pryderon yn ddi-sail neu heb ddigon o dystiolaeth, cânt eu gwrthod. Bydd y broses arholi'n parhau a bydd y traethawd hir yn cael ei asesu yn y ffordd arferol.

3.10 Os cafodd yr arholiad llafar ei atal nes bydd y pryderon wedi'u hadolygu, efallai y bydd yn rhaid i chi fynychu i barhau â'r arholiad llafar, oni bai bod yr Arholwyr yn fodlon bod modd gwneud penderfyniad at sail eich perfformiad cyn atal yr arholiad llafar.

3.11 Os bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig/enwebai yn penderfynu bod angen cynnal ymchwiliad Cam 2 ffurfiol bydd y broses arholi'n cael ei hatal nes bydd ymchwiliad i'r pryderon wedi'i gynnal. Os oes arholiad llafar wedi'i drefnu, bydd yn cael ei ohirio nes bydd canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys.

**Pryderon a fynegwyd ar ôl dyfarnu eich gradd**

3.12 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r achos ac yn penderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad ffurfiol Cam 2.

3.13 Os bydd Cadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd yn gwrthod yr honiad, ni chymerir camau pellach.

3.14 Os bydd Cadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd yn atgyfeirio'r mater ymlaen i ymchwiliad ffurfiol Cam 2, bydd eich traethawd hir yn cael ei gadw gydag argaeledd cyfyngedig yn ystorfa ddigidol neu lyfrgell y Brifysgol nes bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau.

## 4. Cam 2: Ymchwiliad Ffurfiol

4.1 Bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi uwch aelod o staff academaidd yr Ysgol i weithredu fel Swyddog Ymchwilio. Os yw'r honiad yn cynnwys mwy nag un unigolyn a bod yr unigolion hynny wedi'u lleoli mewn gwahanol Ysgolion, bydd Penaethiaid yr Ysgolion perthnasol yn penderfynu pwy ddylai benodi'r Swyddog Ymchwilio ac arwain yr ymchwiliad yn ôl amgylchiadau'r achos.

4.2 Bydd y Swyddog Ymchwilio'n ystyried yr honiad, a bydd yn cwrdd â chi ac unrhyw bartïon perthnasol i ganfod ffeithiau'r achos.

4.3 Byddwch yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd o ddyddiad y cyfarfod a gofynnir i chi gadarnhau eich presenoldeb neu eich bod yn gwrthod y gwahoddiad o fewn 7 diwrnod ar ôl cael y gwahoddiad.

4.4 Byddwch yn cael copi o'r honiad ysgrifenedig a'r holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw ymateb gan eich goruchwylydd, o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod.

4.5 Os na allwch bod yn bresennol yn y cyfarfod, gallwch ofyn am gael cynnal y cyfarfod dros y ffôn neu gyfryngau electronig eraill. Gallwch hefyd gyflwyno datganiad ysgrifenedig mewn ymateb i'r honiad yn hytrach, neu'n ogystal â, bod yn bresennol yn y cyfarfod.

4.6 Gallwch ddod â ffrind, aelod o'r tîm Cynghori Myfyrwyr, neu gynrychiolydd proffesiynol arall gyda chi i'r cyfarfod. Bydd disgwyl i chi gyflwyno eich ymatebion eich hun i gwestiyna'r Swyddog Ymchwilio.

4.7 Os na fyddwch yn derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod nac yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig, bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Swyddog Ymchwilio heb eich cyfraniad chi.

4.8 Bydd y Swyddog Ymchwilio'n cadw cofnod o'r cyfarfod a byddwch yn cael copi o'r nodiadau. Gofynnir i chi gadarnhau cywirdeb y nodiadau. Gallwch, hefyd, gyflwyno eich nodiadau eich hun i'r Swyddog Ymchwilio o fewn 7 diwrnod o'r cyfarfod.

4.9 Yn dilyn y cyfarfod ac ar ôl y 7 diwrnod a ganiateir i ymateb, bydd y Swyddog Ymchwilio'n cynhyrchu adroddiad o'u canfyddiadau ac yn anfon copi o'r adroddiad a'r holl ddogfennau cysylltiedig at y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai. Byddwch chi hefyd yn cael copi o'r ddogfennaeth.

4.10 Bydd y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai yn ystyried adroddiad y Swyddog Ymchwilio a'r holl dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych chi, a bydd yn penderfynu, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, a oes camymddygiad academaidd wedi digwydd.

4.11 Wrth wneud penderfyniad ar gosb, bydd y Pennaeth Ysgol hefyd yn ystyried a fu unrhyw honiadau blaenorol a/neu a oes amgylchiadau eithriadol neu ffactorau lliniarol yr ydych wedi cyflwyno tystiolaeth ohonynt, ac i ba raddau mae'r rhain yn debygol o fod wedi effeithio ar eich gweithredoedd.

4.12 Bydd y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai yn penderfynu ar un o'r canlynol, os nad oes gradd wedi'i dyfarnu :

.1 gwrthod yr honiad os, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, eu bod yn ddi-sail neu oes nad oes digon i dystiolaeth bod camymddygiad academaidd wedi digwydd (gweler adran 9 - Gwrthod Honiadau);

.2 bod, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, camymddygiad academaidd wedi digwydd ond oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, nid yw'r mater yn haeddu cael ei atgyfeirio at Banel Uniondeb Academaidd Cam 3, a chymerir un neu fwy o'r camau canlynol:

- bydd angen i chi fynychu hyfforddiant pellach;
- bydd angen i chi newid gwaith ysgrifenedig neu ddull ymchwilio;
- bydd nodyn yn cael ei roi ar eich cofnod, a fydd yn cael ei gadw am gyfnod eich cofrestriad, fel y gellir ei ystyried os bydd amheuaeth o ddigwyddiadau yn y dyfodol; bydd unrhyw honiadau pellach yn cael eu trin yn fwy difrifol na'r digwyddiad cyntaf;
- bydd gweithdrefn arall Prifysgol yn cael ei rhoi ar waith;

.3 bod, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, camymddygiad academaidd wedi digwydd, ac y dylid atgyfeirio'r pryderon at Banel Uniondeb Academaidd Cam 3.

4.13 Os dyfarnwyd gradd, bydd Pennaeth yr Ysgol yn cyflwyno adroddiad ac argymhelliad i Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarnu a Chynnydd, i'w hystyried o dan Ordinhad Prifysgol 15 (Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd).

4.14 Gall y Pennaeth Ysgol hefyd atgyfeirio pryderon at Banel Uniondeb Academaidd mewn achosion cymhleth, os na all y Pennaeth Ysgol benderfynu a oes camymddygiad academaidd wedi digwydd neu beidio.

4.15 Bydd y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai yn eich hysbysu o'r penderfyniad o fewn 7 diwrnod o gael adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

4.16 Bydd Pennaeth yr Ysgol neu ei enwebai yn hysbysu Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) o ganlyniad yr ymchwiliad ffurfiol Cam 2, i'w adrodd ymlaen i Achosion Myfyrwyr.

4.17 Gallwch herio penderfyniad o dan yr adran hon (heblaw pan fydd pryder yn cael ei wrthod neu os yw'r pryder yn cael ei atgyfeirio at Banel Uniondeb Academaidd Cam 3) drwy ddefnyddio Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol.

## 5. Cam 3: Panel Uniondeb Academaidd

5.1 Bydd Panel Uniondeb Academaidd yn ystyried pob achos sy'n cael ei atgyfeirio gan y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

5.2 Bydd y panel yn cynnwys 3 aelod o uwch staff academaidd o'r tu allan i'ch Ysgol sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r Weithdrefn hon. Bydd un aelod yn gweithredu'n Gadeirydd. Lle bo'r achos yn ymwneud â chamymddwyn academaidd mewn ymchwil, bydd aelodaeth y Panel yn cynnwys aelod o'r tu allan i'r Brifysgol yn lle un o'r uwch staff academaidd. Gall hwn fod yn Ddeon Ôl-raddedig (neu debyg) o brifysgol arall, neu'n aelod lleyg o Gyngor y Brifysgol, er enghraifft. Bydd Pennaeth Achosion Myfyrwyr neu ei enwebai yn gweithredu'n ysgrifennydd y Panel.

5.3 Bydd y Panel yn cael copi o'r honiad gwreiddiol ac unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynwyd fel rhan o ymchwiliad ffurfiol Cam 2.

5.4 Bydd y Panel yn eich gwahodd chi a Phennaeth eich Ysgol neu eu henwebai i'r cyfarfod i drafod yr honiad. Os yw'r honiad yn cynnwys mwy nag un unigolyn o wahanol Ysgolion, gall pob Pennaeth Ysgol perthnasol neu eu henwebai fod yn bresennol. Gall y Panel hefyd wahodd partïon eraill perthnasol neu ofyn am ragor o wybodaeth yn ôl yr angen.

5.5 Cewch o leiaf 14 diwrnod o rybudd cyn y cyfarfod a gofynnir i chi gadarnhau eich bwriad i fod yn bresennol neu eich bod am wrthod y gwahoddiad, o fewn 7 diwrnod o gael yr hysbysiad.

5.6 Byddwch yn cael copi o'r holl dystiolaeth sydd ar gael i'r Panel o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Byddwch hefyd yn cael eich hysbysu ar yr adeg hon o bresenoldeb unrhyw bartïon eraill a wahoddwyd gan y Panel.

5.7 Os hoffech chi gyflwyno datganiad arall neu dystiolaeth ychwanegol, dylid eu cyflwyno i'r ysgrifennydd o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Gallwch hefyd wahodd eich tystion eich hun i fod yn bresennol os bydd hynny'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu hystyried gan y Panel. Dylech roi eu manylion i'r ysgrifennydd o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod.

5.8 Os na allwch fod yn bresennol yn bersonol, gallwch ofyn am gael cyfrannu dros y ffôn neu gyfrwng electronig arall.

5.9 Gallwch ddod â ffrind, aelod o'r tîm Cynghori Myfyrwyr, neu gynrychiolydd proffesiynol arall gyda chi i'r cyfarfod. Bydd disgwyl i chi roi eich atebion eich hun i gwestiynau'r Panel.

5.10 Os na fyddwch yn derbyn y gwahoddiad, bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn eich absenoldeb.

5.11 Os yw/oedd eich astudiaethau ymchwil yn cael eu hariannu gan Gyngor Ymchwil yn y DU, bydd y Cyngor Ymchwil yn cael ei hysbysu bod Panel Uniondeb Academaidd wedi'i alw i ystyried honiadau o gamymddygiad academaidd. Bydd cynrychiolydd o'r Cyngor Ymchwil yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol fel sylwedydd. Ni fyddant yn aelod o'r Panel ac ni chaniateir iddynt i gymryd rhan yn yr ymchwiliad nac i ddylanwadu ar benderfyniad y Panel.

5.12 Os yw’r achos yn cynnwys mwy nag un myfyriwr neu ymgeisydd, gellir clywed eu hachos ar yr un pryd gan yr un Panel, oni bai bod un myfyriwr neu ymgeisydd, neu raddedigion yn gofyn bod yr achos yn cael ei glywed ar wahân. Os hoffech gyflwyno tystiolaeth o ffactorau lliniarol i’r Panel, cewch wneud hynny’n gyfrinachol, oni bai bod hynny’n gwneud honiadau yn erbyn pobl eraill sy’n gysylltiedig â’r achos.

5.13 Bydd y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai’n cyflwyno’r honiadau i’r Panel a byddwch yn cael cyfle i ymateb. Gallwch ofyn cwestiynau i’r Panel, y Pennaeth Ysgol neu eu henwebai a’r partïon eraill a wahoddwyd.

5.14 Bydd y Panel yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, a yw’r honiad wedi’i brofi. Os bydd wedi’i brofi, bydd y Panel yn penderfynu ar gosb, a fydd yn gymesur â’r achos sy’n cael ei ystyried.

5.15 Bydd y Panel yn penderfynu ar un o'r canlynol:

.1 bod yr honiad yn cael ei wrthod (gweler adran 9 - Gwrthod Honiadau); neu

.2 ar ôl pwyso a mesur tebygolrwydd, bod camymddygiad academaidd wedi digwydd.

5.16 Pan fydd y Panel yn penderfynu, ar ôl pwyso a mesur y tebygolrwydd, bod camymddygiad academaidd wedi digwydd, gall osod un neu ragor o’r camau a chosbau canlynol:

.1 unrhyw rai o’r camau neu’r cosbau a restrir o dan 4.12;

.2 bydd yn rhaid i chi ymddiheuro’n ysgrifenedig i’ch goruchwylydd neu unrhyw unigolion eraill sydd wedi’u heffeithio gan eich camymddygiad;

.3 caniateir i chi wneud newidiadau i’ch traethawd hir a’i ailgyflwyno i’w arholi o fewn cyfnod a bennir gan y Panel;

.4 byddwch yn cael cerydd ffurfiol a fydd yn aros ar eich cofnod drwy gydol eich cofrestriad;

.5 bydd argymhelliad yn cael ei wneud i’r Cofrestrydd Academaidd eich bod yn cael eich gwahardd dros dro am gyfnod penodedig;

.6 bydd argymhelliad yn cael ei wneud i’r Cofrestrydd Academaidd eich bod yn cael eich gwahardd yn barhaol o’r Brifysgol.

5.17 Cewch eich hysbysu o benderfyniad y Panel a’r weithdrefn i adolygu’r penderfyniad, yn ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod o ddyddiad y cyfarfod. Bydd copi o’r hysbysiad yn cael ei roi i Bennaeth yr Ysgol a Phennaeth y Gofrestrfa.

5.18 Os bydd y Panel o’r farn y byddai’n briodol i weithredu Gweithdrefn Brifysgol ychwanegol, bydd Cadeirydd y Panel yn atgyfeirio’r achos at y Pennaeth Achosion Myfyrwyr.

## 6. Cais am adolygiad

6.1 Cewch eich hysbysu o’ch hawl i ofyn am adolygu’r penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu’r Brifysgol. Rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud ar un neu ragor o’r seiliau a geir yn y Weithdrefn a rhaid i’r tîm Achosion Myfyrwyr yn y Gofrestrfa gael y cais o fewn 14 diwrnod o anfon yr hysbysiad.

## 7. Gwrthod honiadau

7.1 Os bydd yr honiad yn cael ei wrthod, ni fydd dim dogfennaeth sy’n gysylltiedig â’r honiad a’r ymchwiliadau cysylltiedig yn cael eu cadw ar eich cofnod myfyriwr.

7.2 Os cafodd y pryderon eu mynegi yn y cam arholiad a bod yr arholiad wedi’i atal nes bod canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys, bydd y broses arholi’n parhau a bydd y traethawd hir yn cael ei arholi yn y ffordd arferol.

7.3 Os cafodd y pryderon eu mynegi yn ystod arholiad llafar, efallai y bydd yn rhaid i chi barhau â’r arholiad llafar, oni bai bod yr Arholwyr yn fodlon bod modd gwneud penderfyniad ar sail eich perfformiad cyn atal yr arholiad llafar.

7.4 Os cafodd y pryderon eu mynegi ar ôl cadarnhau eich dyfarniad, bydd eich traethawd hir ar gael yn ystorfa ddigidol neu lyfrgell y Brifysgol, yn amodol ar unrhyw gyfnod o embargo cytunedig.

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| Disgwyliadau ar gyfer Safonau | Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd |
|---|---|
| Mae safonau academaidd cyrsiau yn bodloni gofynion y fframwaith cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n dda, ac yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i bob myfyriwr, ac yn galluogi ffordd ddibynadwy o asesu cyrhaeddiad myfyriwr. |
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn gwneud yn siŵr bod y trothwy o ran safonau ar gyfer ei gymwysterau yn cyd-fynd â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol. | Mae gan y darparwr staff cymwysedig digonol sy'n meddu ar sgiliau i roi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Mae gan y darparwr gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau sy'n deg ac yn dryloyw, ac sydd yn hygyrch i bob myfyriwr. |
| | Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| | Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |

| | |
|---|---|
| | Mae’r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |